

# Cymuned ymarfer arbenigwyr a gwerthuswyr Cymru



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Mae rhaglen Horizon 2020 yn fwy cystadleuol na'i rhagflaenydd, sef Rhaglen Fframwaith 7 ac nid yw'r modelau gwaith blaenorol bob amser yn llwyddiannus. Credwn y bydd ymdrechion i gydweithredu'n arwain at fwy o lwyddiant ac y caiff effaith fwy cynaliadwy na'r ymdrechion blaenorol. Mae Uned Horizon 2020 felly'n hybu cydweithrediad o fewn Cymru ('Tîm Cymru') gan ganolbwyntio ar sicrhau bod sefydliadau Cymru yn cael gymaint o arian â phosibl gan Horizon 2020 a rhaglenni cysylltiedig. Drwy wneud hyn, bydd rhagolygon unigolion a sefydliadau unigol hefyd yn gwella.

Ein nod yw sefydlu fforwm o arbenigwyr a gwerthuswyr parod i rannu gwybodaeth ac arfer da, i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd ac i gynyddu nifer y sefydliadau yng Nghymru sy'n llwyddo i gael arian gan Horizon 2020. Disgwylir i hyn hefyd arwain at gynnydd yn nifer yr arbenigwyr a'r gwerthuswyr o Gymru.

## Beth yw'r buddion sydd ynghlwm gymryd rhan?

Mae maint y buddion posibl yn dibynnu ar faint eich brwdfrydedd ac i ba raddau rydych yn barod i gyfranogi. Dyma rai o'r cyfleoedd posibl a gynigir i chi neu'ch sefydliad:

- Ymgysylltu a chreu partneriaethau â chymuned o unigolion o'r un anian o wahanol sefydliadau ac o wahanol feysydd arbenigedd;
- Manteisio ar lwyfan i rannu gwybodaeth ac ystadegau allweddol yn ymwneud â phynciau gwahanol yn gysylltiedig â rhaglen Horizon 2020, a'u rhannu â'r gymuned H2020 ehangach;
- Datblygu safbwynt ar y cyd ar faterion allweddol i helpu i ddylanwadu ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau (gan gynnwys trefniadau pontio Ewropeaidd);
- Dysgu oddi wrth brofiadau pobl eraill, tynnu sylw at anawsterau a gododd yn y gorffennol a thrafod sut y gellir eu datrys;
- Dod o hyd i ddulliau newydd, a newid y dulliau presennol, o helpu sefydliadau Cymru i fanteisio ar Horizon 2020;
- Cyfle i ymchwilwyr sydd newydd ddechrau ar eu gyrfa i ddysgu gan ymchwilwyr profiadol am broses werthuso Horizon 2020 a'r gystadleuaeth am gyllid ar gyfer gwaith ymchwil.

## Pwy ddylai gymryd rhan?

Byddem yn croesawu:

- Unigolion sy'n fodlon rhannu eu profiadau o raglenni blaenorol y Fframwaith a Horizon 2020 a/neu gyllid ymchwil ac arloesi perthnasol; a
- Cynrychiolwyr clystyrau, cymunedau neu sefydliadau sy'n rhan o Horizon 2020 (bydd angen i'r cynrychiolwyr fedru cymryd rhan mewn trafodaethau).

Gall yr aelodau ddod o'r sector cyhoeddus neu breifat neu'r trydydd sector a dylent gyfrannu at natur gydweithredol y grŵp. I helpu i sicrhau bod Cymru yn elwa o wybodaeth a gaiff ei rhannu am ddim, mae rhagdybiaeth yn erbyn i sefydliadau neu unigolion sy'n cynnig gwasanaeth cynghori er elw fod yn aelodau o Horizon 2020.

## Sut y bydd yn gweithio?

Bydd Uned Horizon 2020 Llywodraeth Cymru yn hwyluso'r gymuned ymarfer ond nid yw'n cynnig pennu ei gylch gwaith. Yn hytrach, gobeithio y bydd y gymuned yn datblygu i gymryd cyfrifoldeb dros ei fformat ei hun gan ganolbwyntio ar weithgareddau a fydd, ym marn y gymuned, yn debygol o gyflawni'r nod cyffredinol.

Rydym yn cydnabod y bydd prinder amser yn cyfyngu, o bosibl, ar allu unigolion a sefydliadau i gyfrannu ac rydym yn barod i ystyried dulliau amrywiol o gyfrannu er mwyn sicrhau bod y bobl briodol yn gallu gwneud hynny ar lefel ac mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'u hymrwymadau presennol.

Gall y dulliau hyn gynnwys: cyfarfodydd wyneb yn wyneb, fideo-gynadledda, cyfnewid gwybodaeth ysgrifenedig a chyfrannu at weithdai pwrpasol.

## Ymunwch â ni

Mae'r gymuned ymarfer eisoes wedi cyfarfod, wedi cael rhai trafodaethau defnyddiol iawn ac wedi rhannu gwybodaeth yn agored. Cysylltwch os ydych yn gallu / yn barod i gyfrannu:

[Horizon2020@cymru.gsi.gov.uk](mailto:Horizon2020@cymru.gsi.gov.uk)

**Cofiwch rannu'r ddogfen hon yn eich sefydliad a'ch rhwydweithiau.**